# Adroddiad Arolygu

**Clwb y Tu Allan i'r Ysgol Plant Tybie**

**Ysgol Gynradd Llandybie**
**Llandybie**
**Rhydaman**
**SA18 3JB**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Clwb y Tu Allan i'r Ysgol Plant Tybie

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Rhian Pritchard |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 3 Hydref 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, ond mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus oherwydd bod eu dymuniadau yn cael eu hystyried. Maent yn teimlo'n hapus ac yn cael cyfleoedd da a phriodol ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn annibynnol ac yn gwneud pethau drostynt eu hunain yn hyderus.

Mae'r staff yn deall polisïau'r lleoliad ac yn eu gweithredu'n gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a llesiant y plant. Mae'r staff yn rheol risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Maent yn fodelau rôl da ac yn meithrin hyder a hunan-barch y plant sy'n cael gofal ganddynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch y plant. Maent yn datblygu eu hasesiadau risg a'u gweithdrefnau ymhellach ac maent yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau y gall y plant gael gafael arnynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu polisïau ac maent yn datblygu eu prosesau i ffurfioli ac adolygu eu cofnodion. Maent yn cefnogi eu staff yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant sy'n briodol ar gyfer eu rolau. Mae ganddynt bartneriaeth effeithiol â'r ysgol a'r gymuned leol, ac mae'r rhieni yn cefnogi'r lleoliad.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn teimlo'n hyderus i gyfleu eu dymuniadau a chaiff eu hanghenion eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau, a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Yn ystod sesiynau'r clwb ar ôl ysgol, mae'r plant yn gyfforddus ac yn dewis ble yr hoffent chwarae. Er enghraifft, dewisodd y plant addurno bisgedi, creu ffyrdd ac adeiladau â blociau mawr neu ymlacio ar soffa i sgwrsio. Yn ystod sesiynau'r bore, mae'r plant yn ddigon bodlon dewis eu gweithgareddau megis hambwrdd twff â siapiau, clai a gliter a'r cafn dŵr a thywod. Adeg byrbrydau, mae'r plant yn cyrraedd eu byrddau yn eiddgar ac yn dewis ble yr hoffent eistedd. Mae llais y plentyn yn agwedd bwysig, er enghraifft, ar ddiwedd y sesiwn, gall y plant ddewis DVD o'u dewis, a chaiff hyn ei barchu gan y grŵp.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel. Maent yn hapus, wedi setlo ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, mae'r plant yn fodlon eu byd drwy gydol pob sesiwn. Gellir eu clywed yn sgwrsio yn llawn cyffro ymysg eu grwpiau, o amgylch y byrddau ac wrth chwarae mewn gwahanol ardaloedd o'r amgylchedd, er enghraifft wrth y set drenau. Mae'r plant yn mwynhau'r cysondeb o ran trefn y lleoliad. Maent hefyd yn gyfforddus ag ymwelwyr. Gwnaethant ddangos yr adnoddau i ni, ac roedd eraill yn llawn cyffro wrth ddweud eu henwau wrthym.

Mae'r plant yn cyfathrebu'n agored â'i gilydd ac â'r staff. Mae'r plant yn rhyngweithio, yn cydweithredu ac yn ymgysylltu’n dda â'u cyfoedion, gan ddangos diddordeb yn anghenion ei gilydd a chefnogi ei gilydd. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent wedi meithrin cydberthnasau â'u cyfoedion a'r staff. Er enghraifft, yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod y plant iau yn mynychu gwasanaethau'r ysgol ym mhrif neuadd yr ysgol. Yn ystod y gwasanaeth, roedd y plant iau yn rhyngweithio'n hyderus wrth iddynt gyfrannu ac ateb cwestiynau ar atal bwlio. Mae hoffter amlwg rhwng y staff a'r plant. Er enghraifft, yn ystod sesiwn cofrestru'r bore, roedd y plant yn cofleidio'r staff yn llawn cyffro ac yn hapus wrth rannu eu newyddion.

Mae'r plant yn ymgysylltu â'u chwarae ac â threfn y lleoliad ac yn cymryd rhan weithgar. Maent yn mynegi brwdfrydedd wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfleoedd chwarae megis chwarae yn y siop. Gwelsom dystiolaeth hefyd o weithgareddau parhaus, megis creu gweithdy Siôn Corn. Mae'r plant yn cychwyn eu gweithgareddau eu hunain gan fod yr adnoddau'n cael eu cadw o fewn eu cyrraedd ar eu lefel nhw. Er enghraifft, roedd y plant yn dangos diddordeb wrth y bwrdd wrth iddynt ddewis lliwiau a deunyddiau i greu crefftau. Drwy dystiolaeth ffotograffig, gwelsom fod y plant hefyd yn mwynhau gweithgareddau megis llwybr natur, coginio a thema siop trin gwallt. Mae'r plant yn awyddus i ddangos yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud neu i sôn am y pethau hynny, ac yn cael cynnig gweithgareddau sy'n addas ar gyfer eu hoedran sy'n hyrwyddo eu datblygiad. Maent yn mwynhau'r annibyniaeth sydd ganddynt i symud o gwmpas yn yr awyr agored, gan ddefnyddio cylchoedd, peli, camau cydbwyso a'r tŷ chwarae. Caiff y plant eu hannog i

ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Maent yn cerdded gyda'i gilydd yn hyderus i'r toiledau ac yn defnyddio'r toiled ac yn golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol heb gymorth. Yn ystod amseroedd byrbryd, mae'r plant yn cymryd eu hamser, heb gael eu rhuthro ac maent yn annibynnol wrth y bwrdd. Cânt gymorth i ddilyn eu diddordebau a chânt eu hannog i ddatblygu eu sgiliau datrys problemau, ond ar yr un pryd, rhoddir rhyddid iddynt gwblhau gweithgareddau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae llawer o'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol, a llesiant, ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn nodi ac yn rheoli risgiau mewn ffordd weithredol, ac maent yn ymateb i'r plant yn gyson. Mae llawer o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu, ac yn rhoi esboniad hyderus o'r feddalwedd ddiogelu a ddefnyddir ganddynt i gofnodi pryderon. Yn ystod y broses arolygu, gwnaeth y bobl sy'n rhedeg y lleoliad adolygu eu gweithdrefnau diogelu gan fwrw ati i ddatblygu siart llif gyfredol sy'n benodol i'r gwasanaeth. Mae'r staff yn rhoi arferion hylendid clir ar waith, megis gwisgo menig wrth roi cymorth i'r plant yn y toiledau. Clywsom y staff yn atgoffa ac yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn gwneud gweithgareddau a chyn bwyta byrbrydau. Mae'r staff yn deall eu rolau ac mae ganddynt systemau ar waith i ddarparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae arferion sefydledig ar waith gan y staff i ymdrin ag alergeddau ac maent yn wybodus am y gweithdrefnau. Er enghraifft, dywedodd y staff wrthym fod yr amgylchedd yn lleoliad di-gnau a'u bod yn sicrhau bod yr adnoddau o fewn cyrraedd hawdd er mwyn cefnogi plant ag alergeddau. Gwelsom bosteri clir yn tynnu sylw at anghenion a chamau gweithredu. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ymlacio. Er enghraifft, mae soffa gyfforddus yn arbennig o boblogaidd â phlant y clwb ar ôl ysgol pan fyddant yn cyrraedd ar ddiwedd eu diwrnod ysgol. Mae'r staff yn barod eu cymwynas ac yn wybodus am anghenion unigol y plant, y gweithdrefnau a'r arferion.

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gyson, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn parchu ei gilydd ac yn cyfathrebu'n gyson, gan ddangos cymorth a chydweithrediad effeithiol. Mae'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant ac maent yn ymateb i lefelau'r cymorth sydd ei angen o ran anghenion a chamau datblygu unigol. Er enghraifft, mae'r staff yn adnabod y plant yn dda a gwelsom eu bod yn uniaethu â phrofiadau'r plant ar y pryd ac yn ymateb gan ddangos diddordeb a gofal. Maent yn fodelau rôl da ac wedi creu amgylchedd gwaith prysur a hapus.

Mae'r staff yn esbonio ac yn darparu gwybodaeth fanwl am y plant a'u harferion. Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio ac amrywiaeth eang o themâu diweddar megis fi fy hun, Diwali a Phlant mewn Angen. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda iawn o hawliau plant ac amrywiaeth ac maent yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau chwarae a dysgu megis cymryd rhan yn y gwasanaeth diolchgarwch, addurno'r capel lleol, a chymryd rhan yng ngwasanaeth Nadolig yr ysgol. Yn ystod ein hymweliad,

gwelsom y plant yn ymateb yn llawn cyffro wrth weld Pydsi'r Arth yn cyrraedd y drws. Dywedodd y staff wrthym fod y plant wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithgaredd hela'r arth a gafodd ei ffilmio a'i rannu â'r rhieni.

| Yr Amgylchedd | Da |
| --- | --- |

Ar y cyfan, mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored, gyda mynedfeydd ac allanfeydd clir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu amgylchedd sy'n groesawgar ac yn gartrefol ac mae arferion hylendid clir ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion tân ac yn cynnal asesiadau risg. Er enghraifft, caiff ymarferion tân ac ymarferion ar gyfer gwagio'r adeilad eu cynnal yn rheolaidd, ac mae asesiadau risg ar waith. Fodd bynnag, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn datblygu system symlach er mwyn sicrhau y caiff holl weithdrefnau diogelwch y lleoliad eu cofnodi ar wahân i weithdrefnau'r ysgol y maent yn gweithredu o'r un adeilad â hi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl gyfarpar tân yn cael ei wasanaethu a'i fod wedi'i leoli'n briodol o amgylch y lleoliad. Maent yn sicrhau bod yr holl wiriadau amgylcheddol a'r holl wiriadau o ran diogelwch yr adeilad wedi'u cwblhau a'u bod wedi'u dogfennu'n gywir. Mae cofrestrau'r staff a'r plant yn cael eu cwblhau bob dydd ac yn ystod yr ymweliad arolygu, cawsant eu datblygu ymhellach i ddangos amseroedd cyrraedd y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gosod system mewngofnodi ddigidol ym mhrif fynedfa’r ysgol ac maent yn cadw llyfr ychwanegol i ymwelwyr yn y lleoliad sy'n sicrhau diogelwch pawb tra eu bod ar y safle.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig man chwarae dan do i'r plant sy'n darparu amgylchedd da ar gyfer chwarae yn ogystal â datblygu sgiliau'r plant. Maent hefyd yn cynnig man chwarae mawr yn yr awyr agored sy'n ddiogel ac yn cael ei ddefnyddio mor aml â phosibl. Maent yn sicrhau bod yr ardal awyr agored ar gael i'r plant a gall y plant ddewis eu hunain a ydynt am chwarae yn yr awyr agored ai peidio yn ystod eu cyfnod chwarae rhydd. Gwelsom fod neuadd yr ysgol hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer rhai gweithgareddau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio bob amser, ac mae'r staff yn deall lefelau risg ac yn gweithredu mewn ymateb iddynt. Maent wedi gosod hysbysfwrdd mawr yn y brif ystafell chwarae sy'n sicrhau y gall y staff ddarllen y wybodaeth ddiweddaraf am y plant a'r holl weithdrefnau. Maent hefyd yn sicrhau y caiff holl gofnodion y lleoliad eu storio'n gyfrinachol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd sy'n cynnig ardaloedd ag adnoddau wedi'u gosod ar unedau silffoedd isel, ardal â charped a soffa, bwrdd a chadeiriau ac ardaloedd ar gyfer chwarae dychmygol a chwarae rôl i'r plant. Gwelsom enghreifftiau o'r plant yn cael gafael ar amrywiaeth o wahanol adnoddau o bob rhan o'r ystafell chwarae ac yn eu defnyddio'n ddiogel. Mae drws o'r ystafell chwarae yn arwain at yr ardal awyr agored sy'n cynnig ardal ddiogel i ddatblygu sgiliau corfforol a sgiliau datrys problemau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n galed i gynnal ac i rannu gweledigaeth y lleoliad ag eraill. Yn ystod y broses arolygu, gwnaethant ddiweddaru eu datganiad o ddiben i adlewyrchu'r newidiadau diweddaraf i'r lleoliad a'i rannu ag AGC, y staff a'r rhieni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw polisïau sy'n cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar y cyfan. Maent yn parhau i ddatblygu prosesau mwy effeithiol i adolygu polisïau a ffurfioli gweithdrefnau unwaith y flwyddyn, yn unol â'r lleoliad clwb bore a chlwb ar ôl ysgol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau rheoliadol ac yn cadw tystysgrifau, gwybodaeth a chofnodion. Maent yn cynnal ffeiliau'r staff a'r plant ac yn sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl ddogfennau a'r cytundebau cydsynio angenrheidiol. Maent yn dilyn gweithdrefnau o ran meddyginiaeth a damweiniau ac yn cadw cofnodion cywir drwy gwblhau dogfennaeth a chyfleu gwybodaeth i'r rhieni mewn ffordd effeithlon a chyfrinachol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cyflwyno adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal sy'n nodi ethos a chyflawniadau'r lleoliad. Yn ystod y broses arolygu, gwelsom dystiolaeth o'r adborth a gasglwyd gan y plant, y rhieni a'r staff a oedd yn cynnwys sylwadau cadarnhaol a chalonogol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r rhain yn rhan o adolygiad o ansawdd y gofal y lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, roeddem yn gallu gweld bod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn gweithio'n barhaus i gyflwyno syniadau newydd ac i wella'r lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sefydlu tîm o staff sy'n cydweithio'n agos ac yn effeithiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad, ac er bod gan y rhan fwyaf ohonynt rolau eraill yn amgylchedd yr ysgol, gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau'r gwahanol brofiadau gyda'r plant yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod hyfforddiant rheolaidd yn cael ei ddarparu i'r staff ac mae

tystysgrifau gorfodol ar waith. Maent yn sicrhau bod arfarniadau a sesiynau goruchwylio staff yn cael eu cynnal ond mae'r trefniadau hyn yn cael eu datblygu ymhellach er mwyn sicrhau proses fwy effeithiol i'r staff. Dywedodd y staff eu bod yn gallu codi materion yn hawdd ac y caiff eu gofynion unigol eu hystyried. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y Gymraeg yn agwedd dda a chyson yn y lleoliad ac mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r iaith yn ogystal â diwylliant Cymru.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael gofal da iawn. Maent yn manteisio ar y cysylltiadau cryf â'r ysgol sy'n sicrhau cyfathrebu effeithiol. Mae'r rhieni yn hynod gefnogol ac yn canmol y staff a'r lleoliad am gyfathrebu'n gyson drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gwelsom dystiolaeth o enghreifftiau da o bartneriaethau cymunedol. Er enghraifft, mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael profiadau yn y gymuned gyfagos, gan ddod i adnabod gweithwyr proffesiynol lleol fel nyrs, swyddogion yr heddlu a'r gwasanaethau tân. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym am ddatblygiadau arfaethedig pellach ac maent yn edrych ymlaen at feithrin partneriaethau newydd â chyrff proffesiynol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Er bod systemau ar waith eisoes i gofnodi ymarferion tân, asesiadau risg a gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad, dylid sicrhau y cânt eu symleiddio a'u ffurfioli a'u bod yn benodol er mwyn dangos tystiolaeth o broses gofnodi fwy effeithiol. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod yr holl gofnodion yn gyfredol, gan gynnwys sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn cael eu hadolygu unwaith y flwyddyn o leiaf. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Er bod adolygiad o ansawdd y gofal yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn a bod y lleoliad yn casglu safbwyntiau'r plant, y rhieni a'r staff, rhaid sicrhau bod y safbwyntiau hyn yn rhan o'r broses hon er mwyn mesur llwyddiant y gwasanaeth ac anghenion y plant. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau bod y broses goruchwylio ac arfarnu yn cael ei datblygu ymhellach er mwyn darparu proses fwy effeithiol i'r staff. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/02/2024